

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

Polisi Deallusrwydd Artiffisial (AI)

Awdur	Arweinydd Arloesedd Digidol
Fersiwn	1.0
Statws	Cymeradwywyd
Dyddiad cymeradwyo	16 Hydref 2025
Cymeradwywyd gan	Ethos a Diwylliant Catholig
Dyddiad dod i rym	Medi 2025
Dyddiad yr adolygiad nesaf	Awst 2026
Cyfrifoldeb dros adolygu	Arweinydd Arloesedd Digidol
Gwnaethpwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg	Do
Ystyriwyd yr Effaith ar Iechyd a Lles	Do

Fersiwn	Dyddiad	Disgrifiad	Addaswyd/Adolygwyd gan
1.0	Medi 2025	Ysgrifennwyd drafft cychwynnol wedi'i hysbysu gan JCQ, JISC a Furze 2025	Arweinydd Arloesedd Digidol

Contents

1. Ystod a Phwrrpas.....	3
2. Diffiniadau.....	3
3. Cyfrifoldebau.....	3
4. Datganiad Polisi.....	4
4.1 Uniondeb Academaidd.....	4
4.2 Tegwch, Cyfartalrwydd a Diogelwch.....	5
4.2.1 Diogelwch ac Urddas y Myfyriwr	5
4.2.2 Ymgysylltu â'r Gymuned	5
4.2.3 Mynediad Cyfartal.....	5
4.2.4 Lliniaru Tuedd	5
4.2.5 Hawlfraint a Thrwyddedu	5
4.2.6 Diogelu a Chyfathrebu	5
4.3 Cyfrifoldeb Amgylcheddol.....	5
4.6 Fframweithiau Gwerthuso	6
4.7 Arweiniad i Staff Addysgu	6
4.8 Strategaethau Dilysu	7
4.9 Canllawiau JCQ.....	7
4.10 Camddefnydd o AI (Camymddwyn)	7
4.11 Arweiniad Gwasanaethau Proffesiynol.....	7
5. Datganiad Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg.....	7
6. Cyfathrebu a Chadw.....	8
7. Monitro ac Adrodd.....	8
8. Adolygu a Gwelliant Parhaus	8
Atodiad A: Graddfa Asesiad AI (Lefelau 1–5).....	10
Cyfeiriadau	11

1. Ystod a Phwrrpas

1.1 Mae'r polisi hwn yn nodi'r egwyddorion a'r gweithdrefnau ar gyfer defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn gyfrifol ar draws y sefydliad, gan gwpasu addysgu a dysgu a gwasanaethau proffesiynol. Ei nod yw diogelu uniondeb academaidd, lles dysgwyr, mynediad cyfartal, preifatrwydd a diogelu data, a chyfrifoldeb amgylcheddol wrth hyrwyddo arloesedd ac effeithlonrwydd. Mae'r polisi'n berthnasol i'r holl staff (addysgu a gwasanaethau proffesiynol), myfyrwyr, contractwyr, a phartneriaid, ac mae'n cwmpasu pob math o AI Cynhyrchiol (testun, delwedd, sain, fideo, cod) yn ogystal ag offer dadansoddeg ac awtomeiddio sy'n cyd-fynd â systemau sefydliadol.

1.2 Mae'r polisi hwn yn cysylltu â Pholisi Diogelu Data'r sefydliad (GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018), Polisi Diogelwch TG, Polisi Diogelu, Polisiâu Asesu, Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, ac Atodlenni Rheoli a Chadw Cofnodion, a rhaid ei ddarllen ochr yn ochr â hynny. Mae wedi'i lywio gan ganllawiau sector gan gynnwys Pecyn Cymorth Aeddfedrwydd AI Jisc ar gyfer Addysg Drydyddol (Jisc, 2025), canllawiau'r JCQ ar ddefnyddio AI mewn asesiadau (JCQ, 2025), a'r Raddfa Asesu AI a strategaethau ymarferol a gynigiwyd gan Leon Furze (Furze, 2024).

2. Diffiniadau

2.1 **Deallusrwydd Artiffisial (AI)**: Systemau cyfrifiadurol sy'n cyflawni tasgau sydd fel arfer angen deallusrwydd dynol. Yn y polisi hwn, mae AI yn cynnwys dadansoddeg ragfynegol, systemau dysgu peirianyddol ac AI Cynhyrchiol (testun, delwedd, sain, fideo, cod).

2.2 **AI Cynhyrchiol (Gen AI)**: Modelau sy'n gallu cynhyrchu cynnwys newydd. Mae enghreifftiau'n cynnwys modelau iaith mawr (LLMs) ar gyfer testun, modelau trylediad ar gyfer delweddau, a systemau amlfodd sy'n cyfuno testun, delwedd, sain, neu fideo.

2.3 **Graddfa Asesu AI**: Offeryn cynllunio sy'n gosod disgwyliadau tryloyw ar gyfer defnydd AI a ganiateir mewn asesiadau, o Lefel 1 (Dim AI) i Lefel 5 (AI Llawn gydag ymgysylltiad beirniadol) (Furze, 2024).

2.4 **Camddefnyddio AI (camymddwyn)**: Unrhyw ddefnydd o AI sy'n torri'r polisi hwn neu reolau'r corff dyfarnu, gan gynnwys cyflwyno gwaith nad yw'n eiddo i'r myfyriwr ei hun; copïo neu ail-adrodd allbynnau AI heb gydnabyddiaeth glir; ffugio ffynonellau neu ddata; defnydd gwahaniaethol neu anniogel (JCQ, 2025).

2.5 **Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA)**: Proses i nodi a lleihau risgiau diogelu data ar gyfer prosiectau sy'n cynnwys data personol, fel sy'n ofynnol gan Erthygl 35 GDPR y DU a chanllawiau'r ICO.

2.6 **Perchennog y polisi**: Y person sy'n gyfrifol am ddatblygu, gweithredu ac adolygu'r polisi hwn.

3. Cyfrifoldebau

3.1 **Llywodraethwyr**: Cymeradwyo'r polisi hwn a derbyn adroddiadau cyfnodol ar fabwysiadu, risgiau a chanlyniadau AI.

3.2 **Pennaeth a Thîm Arweinyddiaeth Uwch**: Darparu goruchwyliaeth strategol, sicrhau cydymffurfiaeth, adnoddau ar gyfer datblygu staff, a monitro effaith noddî.

3.3 **Cyfarwyddwyr/Penaethiaid (Addysgu a Gwasanaethau)**: Sicrhau cydymffurfiaeth leol, enwebu cymeradwyr, a chydlynu DPIAs a gwiriadau cydraddoldeb/iaith y Gymraeg.

3.4 **Addysgwyr:** Gosod disgwyliadau AI ar lefel asesu, addysgu defnydd cyfrifol, dylunio tasgau dilys, a chymhwyso strategaethau dilysu.

3.5 **Staff Gwasanaethau Proffesiynol:** Defnyddio AI yn foesebol ar gyfer gweithrediadau, osgoi rhoi data personol i mewn i offer cyhoeddus, a chynnal logiau archwilio o brosesau a gefnogir gan AI.

3.6 **Myfyrwyr:** Dilyn caniatâd AI datganedig ar gyfer pob tasg, cydnabod defnydd yn dryloyw, a gofyn am eglurhad lle nad ydyn yn siŵr.

4. Datganiad Polisi

4.1 Uniondeb Academiaidd

Rhaid i ganlyniadau academiaidd adlewyrchu dealltwriaeth ddilys myfyrwyr. Ni ddylai myfyrwyr gamliwio cynnwys a gynhyrchwyd gan AI fel eu gwaith eu hunain a rhaid iddynt gydnabod unrhyw ddefnydd a ganiateir o AI (e.e., cydnabyddiaethau offer byr, awgrymiadau/allbynnau ar gais). Os na chaiff adrannau a gynhyrchwyd gan AI eu nodi'n glir, ni fydd yr adrannau hynny'n bodloni gofynion marcio a gallant fod yn camymddwyn (JCQ, 2025).

Bydd addysgwyr yn modelu uniondeb, yn dylunio asesiadau sy'n lleihau cyfleoedd i gamddefnyddio, ac yn cyfleu'n benodol lefelau a ganiateir o ddefnyddio AI ar gyfer pob tasg gan ddefnyddio'r Raddfa Asesu AI (atodiad a). Nid yw AI cynhyrchiol yn llên-ladrad yn ei hanfod; fodd bynnag, gall atgynhyrchu testun gair am air mewn rhai achosion. Ni anogir dibynnu ar feddalwedd canfod AI oherwydd positifau/negyddion ffug hysbys a rhagfarn; cefnogir uniondeb yn well trwy ddylunio a thryloywder asesiadau (Furze, 2024; Jisc, 2025; JCQ, 2025).

4.1.2 Yn unol â chanllawiau'r Cyngor Cydweithredol ar gyfer Cymwysterau (JCQ) (Ebrill 2025), mae Coleg Catholig Dewi Sant yn mynnu bod rhaid i'r holl waith a gyflwynir ar gyfer asesiadau arholedig (gan gynnwys arholiadau ffurfiol ac NEAs o dan amodau arholiad) fod yn waith y myfyriwr ei hun heb gymorth.

- Ni chaniateir cael mynediad at unrhyw offer AI yn ystod arholiadau ffurfiol neu asesiadau eraill a gynhelir o dan amodau arholiad oni bai bod y sefydliad dyfarnu wedi caniatáu hynny'n benodol.
- Ar gyfer gwaith cwrs ac Asesiadau Asesu Cenedlaethol, rhaid nodi a chydabod unrhyw gynnwys a gynhyrchir gan AI yn glir. Ni fydd cynnwys AI heb ei gydnabod yn bodloni'r meini prawf marcio a gellir ei drin fel camymddwyn.
- Rhaid i fyfyrwyr fod yn barod i gynhyrchu awgrymiadau, drafftiau, logiau neu dystiolaeth arall o'u hawduraeth eu hunain ar gais.
- Mae marcwyr/aseswyr dynol yn cadw'r cyfrifoldeb terfynol am raddio a sicrhau ansawdd. Gall offer AI gefnogi ond byth ddisodli barn ddynol wrth farcio neu gymedroli.

- Mae camddefnyddio AI (e.e. cyflwyno cynnwys a gynhyrchir gan AI fel gwaith gwreiddiol neu dorri amodau a ganiateir) yn gyfystyr â chamymddwyn a bydd yn cael ei adrodd yn unol â rheoliadau'r JCQ. Gall sancsiynau gynnwys lleihau marciau, gwrthod gwaith neu anghymhwysu.
- Rhaid i bob aelod o staff sicrhau bod mynediad at offer AI heb awdurdod wedi'i rwystro neu ei gyfyngu o dan amodau arholiad a bod myfyrwyr yn cael eu hyfforddi ar y gofynion hyn.

4.2 Tegwch, Cyfartalrwydd a Diogelwch

4.2.1 Diogelwch ac Urddas y Myfyriwr

Bydd mabwysiadu AI yn blaenoriaethu diogelwch ac urddas y myfyriwr, gan gynnwys gwaharddiad eglur ar gam-drin, defnydd anghyfreithlon neu niweidiol (e.e. deepfakes).

4.2.2 Ymgysylltu â'r Gymuned

Bydd y sefydliad yn ymgysylltu â rhieni, gofalmwr a'r gymuned ehangach am lythrennedd AI a diogelwch, er mwyn magu ymwybyddiaeth a gwytnwch.

4.2.3 Mynediad Cyfartal

Dylai fod ffyrdd hygyrch i gyrraedd offer AI angenrheidiol fel na chaiff myfyrwyr eu hanfanteisio gan gostau tanysgrifio neu rwystrau technegol.

4.2.4 Lliniaru Tuedd

Bydd addysgwyr a gwasanaethau yn cydnabod ac yn lliniaru rhagfarn mewn allbynnau AI, yn enwedig ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, ac yn datgelu lle mae AI wedi'i ddefnyddio mewn cyfathrebu neu adrodd ffurfiol (UNESCO, 2021; OECD, 2021).

4.2.5 Hawlfraint a Thrwyddedu

Rhaid i staff a myfyrwyr barchu hawlfraint a rhwystradau trwyddedu offer AI a chynnwys a gynhyrchwyd, gan sicrhau cydymffurfedd â chyfraith hawlfraint y DU.

4.2.6 Diogelu a Chyfathrebu

Ni ddylid defnyddio AI er mwyn proffilio neu gysylltu â myfyrwyr y tu allan i sianeli a gytunwyd arnynt; mae polisïau diogelu'n gymhwysol yn gyfartal i gyfathrebiadau a alluogwyd gan AI.

4.3 Cyfrifoldeb Amgylcheddol

Mae'r sefydliad yn cydnabod bod systemau AI yn cael effeithiau amgylcheddol ar draws eu cylch bywyd o echdynnu mwynau hanfodol i ddefnyddio ynni a dŵr mewn canolfannau data. Lle mabwysiedir AI, dylai staff ffafrio modelau effeithlon neu fodelau sydd wedi'u hyfforddi ymlaen llaw, cyfyngu ar amllder a hyd hyfforddiant, dewis darparwyr sydd ag ymrwymadau ynni adnewyddadwy credadwy, ac ystyried gwrthbwyso carbon credadwy ar gyfer allyriadau gweddilliol. (Patterson et al., 2021; Strubell et al., 2019).

4.4 Dysgwyr Coleg Catholig Dewi Sant

Gwella dysgu: Gellir defnyddio offer AI i bersonoli dysgu, rhoi adborth amserol a chefnogi gwahanol arddulliau dysgu, yn gyson â barn Jisc y gall AI wella profiadau myfyrwyr wedi'u personoli (Jisc, 2025). Ni ddylai AI ddisodli rhyngweithio dynol ond dylai ategu addysgu.

Llythrennedd AI: Rhaid i ddysgwyr dderbyn canllawiau ar ddefnydd cyfrifol o AI, deall galluedd a chyfyngiadau, gwybod pryd y caniateir defnyddio AI a dysgu gwerthuso allbynnau'n feirniadol.

Defnydd hygyrch a chynhwysol: Rhaid i offer AI fod yn hygyrch i ddysgwyr ag anabledau a chefnogi defnyddwyr Saesneg a Chymraeg. Rhaid i ddulliau amgen fod ar gael lle nad yw AI yn addas.

Dogfennu defnydd o AI: Wrth ddefnyddio AI mewn gwaith cwrs neu asesiadau, dylai myfyrwyr fod yn barod i ddarparu awgrymiadau, allbynnau a manylion offer ar gais a gwneud cydnabyddiaethau syml mewn gwaith a gyflwynir (JCQ, 2025).

4.5 System Gais i Ddefnyddio AI

Rhaid cyflwyno pob defnydd arfaethedig o AI (addysgu neu wasanaethau proffesiynol) drwy'r Ffurflen Gais AI. Mae'r ffurflen yn darparu llwybrau penodol ar gyfer Staff Addysgu a Staff Gwasanaethau Proffesiynol.

Mae cymeradwyaethau yn seiliedig ar risg gyda chyfnod troi o bedair wythnos ar y mwyaf (yn gyflymach ar gyfer achosion risg isel, dim data personol). Lle gellir prosesu data personol, rhaid cwblhau sgrinio DPIA ac, os nodir hynny, DPIA llawn. Dylai ceisiadau gynnwys datganiad pwrpas byr, manteision disgwyliedig, ystyriaethau amgylcheddol, ystyriaethau diogelu data, a'r lefel arfaethedig o ddefnydd AI lle bo'n berthnasol (gweler Atodiad A).

4.6 Fframweithiau Gwerthuso

Bydd adolygwyr yn gwerthuso ceisiadau gan ddefnyddio'r fframweithiau canlynol:

- **Matrics Angen/Potensial** — addasrwydd i'r angen, rhwyddineb integreiddio, cromlin ddysgu, costau/effeithlonrwydd, tystiolaeth o effeithiolrwydd; graddadwyedd, map ffordd, addasrwydd, cefnogaeth gymunedol, aliniad â thueddiadau, gwerth hirdymor (Furze, 2024).
- **Cwadrantau Gorwel** — blaenoriaethu technolegau â gwerth uniongyrchol uchel wrth fonitro technolegau anaeddfed neu ddyfalu.
- **Cyfrifiad Aros** — lle mae newid cyflym yn awgrymu darfodiad tebygol, gohirio mabwysiadu nes bod opsiynau sefydlog, moesegol a chynaliadwy yn dod i'r amlwg.

4.7 Arweiniad i Staff Addysgu

Ar gyfer pob asesiad, rhaid i athrawon osod a chyfleu'r lefel a ganiateir o ddefnydd AI (Atodiad A) a dylunio tasgau dilys sy'n cymell meddwl gwreiddiol ac arddangos sgiliau. Rhaid diogelu preifatrwydd, ni ddylid rhoi data personol/adnabyddadwy i offer AI cyhoeddus. Lle caniateir AI, rhaid i fyfyrwyr gydnabod unrhyw ddefnydd yn dryloyw. Osgowch ddibynnu ar feddalwedd canfod; yn lle hynny, defnyddiwch strategaethau dylunio a dilysu asesiadau i gynnal uniondeb (gweler 3.1).

4.7.1 Rhaid i staff gael caniatâd gwybodus myfyrwyr cyn rhoi unrhyw waith myfyrwyr i mewn i offeryn AI, hyd yn oed os nad yw'r gwaith yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol nac adnabyddadwy. Mae gan fyfyrwyr yr hawl i wrthod hyn a rhaid iddynt beidio â chael eu cosbi am optio allan.

4.7.2 Rhaid adrodd ar unwaith i'r Arweinydd Arloesi Digidol a'r Swyddog Diogelu Data am unrhyw fewnbwn damweiniol o ddata personol/adnabyddadwy i offeryn AI.

4.8 Strategaethau Dilysu

Defnyddiwch ddrafftio fesul cam, pwyntiau gwirio dan oruchwyliaeth, sesiynau viva/trafodaethau byr, a chadw drafftiau/nodiadau i ddangos tystiolaeth o ddysgu. Gofynnwch am gydnabyddiaethau AI syml (enwau offer, dyddiadau) a, lle bo'n gymesur, darnau byr o awgrymiadau/ymatebion. Mabwysiadwch fformatau asesu amrywiol (cyflwyniadau, ymarferion, datrys problemau) i leihau cyfleoedd ar gyfer allanoli anwir.

4.9 Canllawiau JCQ

Dylai staff ymgysylltu â chanllawiau cyfredol y JCQ ar gyfer Deallusrwydd Artiffisial 'Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial mewn Asesiadau' a sicrhau bod amodau'r ystafell ddosbarth a'r asesiadau yn atal defnydd heb awdurdod o Deallusrwydd Artiffisial lle mae'n waharddedig.

4.10 Camddefnydd o AI (Camymddwyn)

Mae'n ofynnol i bob aelod o staff a myfyriwr ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn gyfrifol ac yn unol â'r polisi hwn. Gwaherddir camddefnyddio AI, gan gynnwys rhoi gwybodaeth personol neu adnabyddadwy i mewn i offer AI Cynhyrchiol heb awdurdod, neu gyflwyno cynnwys a gynhyrchwyd gan AI fel gwaith gwreiddiol. Bydd unrhyw dorri rheolau yn cael ei drin o dan Bolisi Disgyblu'r Coleg ac, ar gyfer asesiadau, yn unol â rheoliadau cyfredol y JCQ.

Mae manylion llawn y broses adrodd, y camau ymchwilio, a'r gweithdrefnau disgyblu wedi'u nodi yn y ddogfen Gweithdrefnau AI sy'n cyd-fynd â'r polisi hwn. Rhaid i bob aelod o staff a myfyriwr ymgysylltu â'r gweithdrefnau hyn.

4.11 Arweiniad Gwasanaethau Proffesiynol

4.11.1 Gall gwasanaethau proffesiynol ddefnyddio AI i gefnogi llif gwaith gweinyddol, dadansoddi data, cyfathrebu a chymorth i ddysgwyr. Ni ddylai staff fewnbynnu data personol na sensitif i offer AI cyhoeddus; lle mae angen prosesu data personol, defnyddiwch offer a gymeradwywyd gan y sefydliad a chwblhewch sgrinio DPIA. Cynhaliwch logiau defnydd syml ar gyfer tryloywder ac archwiliad; ystyriwch effeithiau amgylcheddol wrth ddewis neu ffurfweddu offer AI.

4.11.2 Mae unrhyw brosesu gwybodaeth personol neu adnabyddadwy mewn systemau AI Cynhyrchiol heb gymeradwyaeth DPIA ymlaen llaw yn gyfystyr â thorri data a bydd yn cael ei reoli o dan Bolisi Disgyblu a Pholisi Torri Data'r Coleg.

5. Datganiad Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

5.1 Cynhaliwyd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg ar gyfer y polisi hwn, gan dynnu ar ymgynghoriad â staff a myfyrwyr. Mae'r asesiad yn dangos effaith gadarnhaol neu niwtral ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig. Gall deallusrwydd artiffisial wella hygyrchedd trwy ddarparu adborth personol a thechnolegau cynorthwyol. Fodd bynnag, gall rhagfarn mewn setiau data a rhwystrau iaith greu effeithiau negyddol. Mae mesurau lliniaru yn cynnwys profi rhagfarn orfodol, dylunio hygyrch, monitro rheolaidd a darparu dogfennaeth ddwyieithog (Saesneg a Chymraeg). Bydd deunyddiau polisi yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg, a chynigir sesiynau hyfforddi yn ddwyieithog.

6. Cyfathrebu a Chadw

6.1 Cyhoeddir y polisi hwn ar blatfform a gwefan y staff (sydd hefyd ar gael yn y Gymraeg a fformatau hygyrch). Cyfleuir diweddariadau drwy friffiau staff a sianeli dysgwyr. Bydd cofnodion sy'n ymwneud â cheisiadau, cymeradwyaethau a monitro AI yn cael eu storio yn unol â'r Rheolau Cofnodion.

7. Monitro ac Adrodd

7.1 Bydd defnyddiau AI cymeradwy yn cael eu gwirio ar hap i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chaniatadau datganedig a mesurau diogelu data. Bydd arweinwyr rhaglenni yn cyflwyno crynodebau byr o ddefnydd a chanlyniadau AI. Ar gyfer cymwysterau o dan y JCQ, rhaid i gofnodion ddangos sut y caniatwyd a chydabwydd AI mewn asesiad/marcio, a rhaid adrodd am gamymddwyn a amheuir drwy weithdrefnau'r corff dyfarnu. Bydd effeithiau amgylcheddol a chydaddoldeb a nodwyd wrth gymeradwyo yn cael eu hadolygu'n flynyddol; bydd lliniariadau'n cael eu diweddarw lle bo angen.

7.2 Rhaid adrodd ar ddigwyddiadau o allbynnau AI niweidiol neu anniogel ar unwaith i'r Arweinydd Arloesi Digidol a'r Swyddog Diogelu Data, a fydd yn asesu ac yn uwch gyfeirio o dan y Polisi Torri Data.

8. Adolygu a Gwelliant Parhaus

8.1 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol neu'n gynt lle bydd deddfwriaeth, technoleg neu risg sefydliadol yn newid. Bydd y Grŵp Llywio Deallusrwydd Artiffisial yn ystyried adborth gan staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid cymunedol ac yn ymgorffori diweddariadau canllawiau sector (e.e., Jisc a JCQ).

8.2 Bydd y Grŵp Llywio Deallusrwydd Artiffisial yn cynnwys cynrychiolaeth o addysgu, gwasanaethau proffesiynol, diogelu, diogelu data a llais myfyrwyr.

8.3 Bydd diweddariadau i'r polisi hwn a'r gofrestr Offer Deallusrwydd Artiffisial Cymeradwy yn cael eu cyfleu trwy friffiau staff, bwletinaw myfyrwyr a'r fewnrwyd.

8.4 Bydd y sefydliad yn darparu hyfforddiant rheolaidd ar ddefnydd cyfrifol o Ddeallusrwydd Artiffisial, diogelu data a chynaliadwydd amgylcheddol i staff a myfyrwyr.

8.4.1 Arloesedd AI a hyfforddiant

Mae Coleg Catholig Dewi Sant wedi ymrwymo i arloesi cyfrifol. Bydd y Coleg yn sefydlu "Blwch Tywod Arloesi Deallusrwydd Artiffisial", amgylchedd diogel lle gall staff a myfyrwyr roi cynnig ar offer Deallusrwydd Artiffisial sy'n dod i'r amlwg o dan amodau rheoledig. Bydd pob gweithgaredd blwch tywod yn gweithredu gyda ffiniau gwarchod moesegol, diogelu a gwarchod data clir (yn unol â GDPR y DU, JCQ, a pholisïau sefydliadol). Bydd y canlyniadau a'r gwersi a ddysgwyd yn llywio penderfyniadau mabwysiadu yn y dyfodol.

8.4.2 Llythrennedd AI a Dysgu Proffesiynol

Bydd y Coleg yn cynnig hyfforddiant parhaus mewn Llythrennedd AI ac AI Cynhyrchiol i staff a myfyrwyr. Bydd y rhaglen hon yn:

- Meithrin dealltwriaeth o alluoedd, cyfyngiadau ac ystyriaethau moesegol AI.

- Darparu enghreifftiau o arfer da sy'n benodol i'r pwnc.
- Cefnogi staff i ddylunio addysgu ac asesiadau wedi'u gwella gan AI.
- Cyfarparu myfyrwyr i ddefnyddio AI yn feirniadol ac yn dryloyw. Bydd hyfforddiant yn cael ei adnewyddu'n flynyddol i adlewyrchu canllawiau'r sector (Jisc, JCQ) a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg.

8.4.3 Sgwrsfot Polisi AI

Er mwyn gwella mynediad at ganllawiau sefydliadol, bydd y Coleg yn datblygu sgwrsfot (chatbot) sy'n cael ei bweru gan AI sydd wedi'i hyfforddi ar y Polisi AI swyddogol a dogfennau cysylltiedig. Bydd yr offeryn hwn yn galluogi staff a myfyrwyr i gael atebion cyflym a chywir i gwestiynau polisi, gan sicrhau cysondeb a lleihau'r baich gweinyddol. Bydd y sgwrsfot yn cael ei ddiweddarau pryd bynnag y bydd y polisi'n newid a bydd yn cynnwys dolenni i ddogfennau llawn i gyfeirio atynt.

8.4.4 Adolygiad Parhaus o Arloesedd

Bydd pob menter arloesi yn cael ei hadolygu'n rheolaidd o ran effeithiolrwydd, ecwiti ac effaith amgylcheddol. Bydd adborth yn cael ei gasglu gan staff a myfyrwyr i lywio gwelliannau a sicrhau cyd-fynd â chenhadaeth a gwerthoedd y Coleg.

Atodiad A: Graddfa Asesiad AI (Lefelau 1–5)


Lefel 1 – Dim AI: Mae dysgwyr yn cwblhau gwaith yn annibynnol heb AI. Addas ar gyfer dangos gwybodaeth/sgiliau unigol (e.e., ysgrifennu dan oruchwyliaeth yn y dosbarth, arholiad llafar).

Lefel 2 – Ystyried syniadau/Amlinellu: Gellir defnyddio AI i gynhyrchu syniadau, cynlluniau neu amlinelliadau. Mae dysgwyr yn datblygu allbynnau'n annibynnol ac yn cydnabod cymorth AI.

Lefel 3 - Golygu/Mireinio: Gall AI gefnogi gramadeg, eglurder, strwythur, neu olygu gweledol. Mae dysgwyr yn cyflwyno fersiynau gwreiddiol a diwygiedig ynghyd â chydabyddiaeth fer.

Lefel 4 – AI + Gwerthusiad Beirniadol: Mae AI yn cynhyrchu drafftiau/dadansoddiadau y mae dysgwyr yn eu beirniadu, yn eu cymharu neu'n eu mireinio, gan ddangos tystiolaeth o ddoethineb a dealltwriaeth o'r pwnc.

Lefel 5 – AI Llawn gydag Ymgysylltiad Beirniadol: Mae AI yn cynhyrchu allbynnau sylweddol; mae dysgu'n canolbwyntio ar werthuso, gwella a throsglwyddo. Mae angen cydnabyddiaeth glir.



1	DIM AI	Cwblheir y gwaith yn gyfan gwbl heb ddefnyddio AI. Cwblheir yr asesiad yn gyfan gwbl heb gymorth AI. Rhaid i fyfyrwyr ddibynnu'n llwyr ar eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u meddwl eu hunain. Rhaid i chi gynhyrchu pob agwedd ar eich cyflwyniad yn annibynnol, heb gymorth AI.
2	CYNLLUNIO AI	Gellir defnyddio AI ar gyfer gweithgareddau cyn-tasg fel ystyried syniadau, amlinellu ac ymchwil gychwynnol. Mae'r lefel hon yn canolbwyntio ar ddefnyddio AI yn effeithiol ar gyfer cynllunio, synthesis a chreu syniadau, ond dylai asesiadau bwysleisio'r gallu i ddatblygu a mireinio'r syniadau hyn yn annibynnol. Gallwch ddefnyddio deallusrwydd artifisial ar gyfer cynllunio, datblygu syniadau ac ymchwil. Dylai eich cyflwyniad terfynol ddangos sut rydych chi wedi datblygu a mireinio'r syniadau hyn.
3	GOLYGU AI	Gall AI helpu i fireinio, addasu neu wella cynnwys a gynhyrchir gan fyfyrwyr (e.e. golygu, gwella iaith) ond ni all gynhyrchu cynnwys sylweddol newydd sbon. Gallwch ddefnyddio AI i gynorthwyo gyda thasgau penodol fel drafftio testun, mireinio a gwerthuso eich gwaith. Rhaid i chi werthuso a newid yn feirniadol unrhyw gynnwys a gynhyrchir gan AI rydych chi'n ei ddefnyddio.
4	AI LLAWN + GWERTHUSIAD BEIRNIADOL	Gellir defnyddio deallusrwydd artifisial i gwblhau unrhyw elfennau o'r dasg, gyda myfyrwyr yn cyfarwyddo AI i gyflawni'r nodau asesu. Gall asesiadau ar y lefel hon hefyd olygu bod angen ymgysylltu â AI i gyflawni nodau a datrys problemau. Gallwch ddefnyddio AI yn helaeth drwy gydol eich gwaith naill ai fel y dymunwch, neu fel y cyfarwyddir yn benodol yn eich asesiad. Canolbwyntiwch ar gyfeirio AI i gyflawni eich nodau wrth ddangos eich meddwl beirniadol.
5	ARCHWILIAD LLAWN AI	Gellir defnyddio AI yn helaeth drwy gydol y broses asesu (modd cyd-beilot). Gall myfyrwyr integreiddio deallusrwydd artifisial yn fwy rhydd. Mae'r lefel hon yn disgwyl llythrennedd beirniadol uwch am deallusrwydd artifisial, gan gydnabod ei derfynau, ei ragfarnau, a'i ryngweithio â meddwl myfyrwyr.

Ffigwr A1. Graddfa Asesu AI (fersiwn gyfredol). Defnyddiwch er mwyn gosod disgwyliadau tryloyw i bob asesiad.

Cyfeiriadau

Cyfeiriad: JCQ (2025) AI Use in Assessments – Your role in protecting the integrity of qualifications.

Furze, L. (2024) Practical AI Strategies: Engaging with Generative AI in Education. (AI Assessment Scale materials).

JCQ (2025) AI Use in Assessments: Your role in protecting the integrity of qualifications. Revision Two (30 April 2025). Ar gael yn: https://www.jcq.org.uk/wp-content/uploads/2025/04/AI-Use-in-Assessments_Apr25_FINAL.pdf (Mynediad: Medi 2025).

Jisc (2025) AI Maturity Toolkit for Tertiary Education. Ar gael yn: <https://www.jisc.ac.uk/ai-maturity-toolkit-for-tertiary-education> (Mynediad: Awst 2025).

Jisc (2025) FE: AI and Assessment – Top Tips. Ar gael yn: <https://nationalcentreforai.jiscinvolve.org/> (Mynediad: Awst 2025).

UNESCO (2021) AI in Education: Guidance for Policymakers. Paris: UNESCO.

OECD (2021) AI and the Future of Skills, Education and Work. Paris: OECD Publishing.

Patterson, D. et al. (2021) 'The Carbon Footprint of Machine Learning Training', Papur Gwyn Ymchwil Google Research.

Strubell, E., Ganesh, A. and McCallum, A. (2019) 'Energy and Policy Considerations for Deep Learning in NLP', ACL 2019.